# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pentref Gofal Brynmawr**

**2 Intermediate Road**
**Brynmawr**
**Glynebwy**
**NP23 4SF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Pentref Gofal Brynmawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Brynmawr Care Village Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 120 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael ym Mhentref Gofal Brynmawr. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gynlluniwyd a gweithgareddau rheolaidd sydd wedi'u trefnu gan dîm o gydgysylltwyr llesiant. Mae gan bob person gynllun gofal personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfarwyddo'r staff ar y ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth. Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi canlyniadau na dyheadau personol y bobl na sut y gallant gael eu cyflawni. Mae angen gwella cofnodion gweinyddu meddyginiaeth.

Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn weladwy wrth iddynt redeg y gwasanaeth. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn cwblhau'r adroddiadau gofynnol ar ansawdd y gofal. Mae'r amgylchedd yn fawr, yn lân ac yn gartrefol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith parhaus i adnewyddu'r gwasanaeth. Caiff y staff gofal eu cyflogi yn dilyn gwiriadau recriwtio cadarn ac maent yn cael eu goruchwylio a'u hyfforddi'n rheolaidd.

## Llesiant

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi gan y staff gofal i fod mor iach â phosibl. Mae'r staff yn ymwybodol o hoff bethau a chas bethau'r bobl yn ogystal â'u halergeddau a'u deietau arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion gofal a chymorth y bobl ac unrhyw risgiau perthnasol i'w hiechyd a'u llesiant. Cânt eu cofnodi mewn cynlluniau personol, gan roi arweiniad i'r staff ar sut i gefnogi unigolion â'u hanghenion. Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau meddyg teulu a chaiff apwyntiadau â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eu trefnu. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hatgyfeirio at weithwyr proffesiynol oherwydd unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd mewn ffordd briodol. Mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â chofnodi rhoi meddyginiaeth. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn ddigon manwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn cael eu hannog i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, lle y bo'n bosibl. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i wneud dewisiadau o ddydd i ddydd. Maent yn deall dewisiadau'r bobl ac yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt. Caiff cyfarfodydd preswylwyr eu cynnal yn rheolaidd, sy'n rhoi llais i'r bobl a'r gallu iddynt gyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Caiff cyfarfodydd â pherthnasau a chynrychiolwyr eu cynnal hefyd er mwyn rhoi ystyriaeth i'w safbwyntiau a'u barn am ddarpariaeth y gwasanaeth. Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o'u cynlluniau gofal. Gall ffrindiau a pherthnasau ymweld pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Gwelsom fod y gweithgareddau yn amrywiol ac yn cynnwys dathlu digwyddiadau â thema, gweithgareddau hel atgofion, celf a chrefft ac ymweliadau gan gantorion a diddanwyr a rhai gweithgareddau cymunedol. Mae croeso i berthnasau a ffrindiau ymuno yn y gweithgareddau yn y cartref.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Caiff y risgiau i'r bobl eu hasesu, a chaiff eu diogelwch ei reoli a'i fonitro. Ymdrinnir â damweiniau a digwyddiadau mewn ffordd briodol, a chânt eu monitro gan y rheolwyr fel y gellir nodi a gweithredu ar unrhyw dueddiadau. Caiff gwiriadau o gymeriad ac addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau cyn rhoi gofal eu cwblhau. Mae gan y darparwr bolisi a chanllawiau diogelu i'r staff eu dilyn ac mae'r gwasanaeth wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. Lle mae cyfyngiadau angenrheidiol ar waith er budd pennaf y bobl i'w cadw'n ddiogel; mae'r rhain yn ymddangos yn gymesur. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r hysbysiadau gofynnol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn modd amserol.

Mae darparwr y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn yr eiddo i wella llesiant y bobl. Ceir amserlen waith barhaus i sicrhau bod y tair uned i'r un safon uchel. Mae trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae ystafelloedd yr unigolion wedi'u personoli ag eitemau personol sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i helpu'r bobl lle bo angen.

## Gofal a Chymorth

Caiff asesiadau eu cwblhau cyn i'r bobl symud i mewn, i benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Mae gan bob person sy'n derbyn gwasanaeth gynllun personol unigol a manwl. Mae'r cynlluniau yn adlewyrchu anghenion y bobl ac yn cynnwys arweiniad i'r staff ei ddilyn. Mae'r asesiadau risg yn tynnu sylw at wendidau'r unigolion ac yn cynnwys gwybodaeth ar sut i'w cadw'n ddiogel. Mae'r cynlluniau yn cynnwys hanesion cymdeithasol, yn nodi hoff bethau, cas bethau a dymuniadau, gan sicrhau bod llais yr unigolyn wrth wraidd y gofal a roddir iddynt. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Gwelwyd tystiolaeth bod trefniadau wedi gwella i gynnwys y bobl yn yr adolygiadau hyn. Mae bellach angen rhoi hyn ar waith mewn ffordd gyson. Fodd bynnag, ni chaiff canlyniadau personol neu nodau'r unigolion, a'r ffordd y gellir cyflawni'r rhain eu cynnwys mewn cynlluniau. Mae hyn yn faes i'w wella o hyd ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn. Byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Caiff atgyfeiriadau priodol eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gydag argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan y gwasanaeth. Caiff asesiadau o alluedd meddyliol ac asesiadau o les pennaf eu cwblhau. Caiff awdurdodiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu ceisio lle nad oes gan y bobl alluoedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u llety ac y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid i'w cadw'n ddiogel.

Mae systemau ar waith ar gyfer derbyn, storio a rhoi meddyginiaethau. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond staff awdurdodedig all gael gafael arnynt. Nid yw'r gwaith o roi a chofnodi meddyginiaeth 'yn ôl y gofyn' yn ddigon cadarn. Ar ben hynny, nid yw'r staff yn cofnodi pam eu bod yn rhoi unrhyw feddyginiaethau a ragnodir yn rheolaidd. Roedd archwiliadau mewnol wedi nodi'r diffygion hyn hefyd. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Roedd y lefelau ymgysylltu a rhyngweithio gan y staff yn amrywiol drwy gydol yr arolygiad. Yn ystod amser bwyd, gwelsom y staff mewn un uned yn rhuthro ac nid oedd ganddynt fawr o amser i ymgysylltu â'r bobl a'u cefnogi. Gwelsom fod rhai o'r bobl yn gorfod aros am eu bwyd tra roedd eraill eisoes wedi gorffen eu bwyd nhw. Gwelsom enghreifftiau da o'r staff yn annog ac yn ymgysylltu â'r bobl sydd angen cymorth gyda'u prydau, gan wella eu profiadau amser bwyd. Fodd bynnag, nid oedd y lefel hon o ofal a chymorth yn cael ei darparu gan bob aelod o'r staff. I'r gwrthwyneb, gwelwyd bod ychydig o ryngweithio'r staff yn canolbwyntio ar dasgau heb fawr ddim cyfathrebu â'r unigolyn y maent yn eu cefnogi. Dylid parhau i adolygu a monitro'r lefelau staffio a'r defnydd o staff yn ystod amseroedd prysur yn rheolaidd, yn enwedig yn ystod amser bwyd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas i ddarparu'r gwasanaeth. Mae lleoliad, cynllun a maint y safle yn unol â'r disgrifiad yn y datganiad o ddiben. Mae darparwr y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith parhaus i adnewyddu a diweddaru'r amgylchedd. Gwnaethom gerdded o amgylch y safle a gwelsom ei fod yn lân, yn ddiogel ac yn gyfforddus. Roedd y gwasanaeth wedi cael ei arolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chafodd sgôr o 3, sy'n dangos bod y safonau hylendid yn foddhaol ar y cyfan.

Darperir llety ar draws tair uned ar wahân. Mae un uned wedi cael ei hadnewyddu'n gyfan gwbl ac mae'r newid i'r amgylchedd ffisegol wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd a llesiant y bobl. Mae yna amserlen waith i adnewyddu'r unedau eraill i safon debyg. Ceir amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ym mhob uned lle gall y bobl ddewis bod yng nghwmni eraill neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r ardaloedd eistedd awyr agored sydd ar gael yn rhoi cyfle i'r bobl eistedd allan mewn tywydd cynnes. Dywedwyd wrthym fod dodrefn newydd wedi cael eu prynu i'r ardd. Mae digon o doiledau a chyfleusterau ymolchi ar gael. Mae'r ystafelloedd ymolchi sydd wedi'u haddasu yn gwella hygyrchedd y bobl. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sy'n fawr, yn lân ac wedi'u personoli'n unol â'u chwaeth bersonol. Mae gan y bobl luniau teuluol, cardiau ac addurniadau yn eu hystafelloedd sy'n creu awyrgylch cartrefol.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff amrywiaeth o wiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal yn rheolaidd yn y gwasanaeth. Mae cyfleustodau megis nwy a thrydan yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Caiff gwiriadau a gwaith cynnal a chadw parhaus eu cynnal ar gyfarpar megis teclynnau codi, slingiau a lifftiau. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau'n rheolaidd. Mae cynlluniau personol cyfredol ar waith ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ac mae'n hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Ceir tîm dynodedig i gynnal gwaith atgyweirio cyffredinol a gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd.

Gwelsom fod y trefniadau glanhau a'r safonau hylendid ym mhob rhan o'r cartref yn dda, ac mae dyletswyddau golchi dillad yn cael eu cynnal. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff domestig i gynnal y safonau yn y cartref. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r holl staff.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r datganiad o ddiben yn nodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ac mae'r gwasanaeth yn adlewyrchu ei gynnwys. Mae systemau llywodraethu ar waith i gefnogi'r broses o redeg y gwasanaeth. Mae'r systemau hyn yn rhoi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol, pennaeth y rhanbarth a'r rheolwr cofrestredig am faterion sy'n codi ac yn nodi lle y mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn cwblhau'r adroddiadau angenrheidiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adolygu'r systemau a'r gweithdrefnau, yn casglu adborth gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn gosod camau gweithredu i lywio gwelliannau. Mae'r rheolwr a benodwyd yn ddiweddar yn darparu sefydlogrwydd i'r gwasanaeth drwy oruchwylio darpariaeth y gwasanaeth bob dydd. Mae'n brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ar gyfer eu rôl, ac yn ymrwymedig i gefnogi a datblygu'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn recriwtio, ac yn hyfforddi'r staff yn briodol. Mae'r trefniadau dethol a fetio sydd ar waith yn galluogi darparwyr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau wrth benodi staff. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu hanesion cyflogaeth. Mae prosesau ar gyfer cadarnhau manylion adnabod a chael geirdaon hefyd yn helpu i sicrhau bod staff unigol yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae Gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael i bob aelod o staff. Mae'r cofrestriadau'r nyrs yn ddilys sy'n dangos eu bod yn addas ar gyfer ymarfer. Caiff y staff gofal eu cefnogi i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Ceir ymrwymiad i sicrhau bod yr holl staff gofal yn ennill y cymwysterau gofynnol i'w galluogi i gofrestru.

Mae staff gofal newydd eu penodi yn cwblhau rhaglen sefydlu sy'n cynnwys hyfforddiant a shifftiau cysgodol. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd a chaiff arfarniadau eu cwblhau'n flynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r staff gofal drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ac i'r tîm rheoli roi adborth ar eu perfformiad gwaith. Mae cofnodion hyfforddiant y staff gofal yn nodi bod y staff gofal yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant, ac maent yn cwblhau hyfforddiant gloywi mewn modd amserol. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cynnwys pynciau fel symud a chodi a chario, rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o ddementia a diogelu oedolion sy'n wynebu risg. Caiff cyfarfodydd staff ar gyfer pob adran yn y gwasanaeth eu cynnal, gan hybu trafodaethau am brofiadau'r bobl ac unrhyw newidiadau a gynlluniwyd i wella'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae dogfennaeth allweddol ar gael yn Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn dathlu diwylliant Cymru drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau thema yn y gymuned, gan ddathlu hanes lleol a thraddodiadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Bylchau mewn cofnodion rhoi meddyginiaeth a diffyg arweiniad ar gyfer defnyddio meddyginiaeth 'yn ôl yr angen'. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys canlyniadau personol na sut y cânt eu cyflawni. | Heb Gyflawni |
| 15 | Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod tystiolaeth bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/08/2024